# Cymru: penderfyniadau dirprwyedig mis Tachwedd 2025

09/12/2025

See all updates
Atodlen o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru ar 11 Tachwedd 2025.
Penderfyniadau ariannu

## Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £10,000 i £250,000

### Remembering the Soldiers of Blaenavon

Ymgeisydd: Gr?p Treftadaeth Blaenafon

Disgrifiad o'r prosiect: Prosiect deuddeg mis i goffáu milwyr a gollodd eu bywydau ar blac newydd ar senotaff Blaenafon ac argraffu llyfr am eu bywydau.

Penderfyniad: Gwrthod

### The Leadership Excellence Hub & The Re-integration Hub of Parc Dewi Sant

Ymgeisydd: EMPATHYWORKS COMMUNITY INTEREST COMPANY

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect tair blynedd sydd â'r nod o greu canolfan rhagoriaeth ailintegreiddio ac arweinyddiaeth o fewn Adeilad 8 ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin. Dyma hen Noddfa Caerfyrddin sydd bellach yn ganolfan fusnes.

Penderfyniad: Gwrthod

### Beyond Modern Britain 2025

Ymgeisydd: BAME ONLINE COMMUNITY TELEVISION

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect dwy flynedd arfaethedig  i addysgu cymuned BAME Abertawe am dreftadaeth a diwylliant Prydain trwy ymweld â safleoedd hanesyddol.

Penderfyniad: Gwrthod

### Bloom and Learn – developing our school garden

Ymgeisydd: Ysgol Gynradd T?'n y Wern

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect 9 mis i ddatblygu gardd ysgol gynradd sydd heb ei defnyddio'n ddigonol, drwy: blannu planhigion, blodau a llwyni brodorol; sefydlu cartrefi i anifeiliaid fel tai draenog; creu cuddfan adar a man

dysgu; ac adeiladu llwybr hygyrch.

Penderfyniad: Gwrthod

## Rooted in Coal, Written in Ink

Disgrifiad o'r prosiect: Prosiect blwyddyn i ddod â chreadigrwydd chwarae gemau a threftadaeth Cwm Rhondda ynghyd.

Ymgeisydd: The Ink & Coal Collective

Penderfyniad: Gwrthod

## We Love Cwmcelyn

Ymgeisydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect arfaethedig 16 mis sydd â'r nod o gynyddu gweithgarwch ac ymgysylltiad, a deall a diogelu bioamrywiaeth a threftadaeth Pyllau Cwmcelyn a'r mannau gwyrdd cyfagos yn well.

Penderfyniad: Gwrthod

## 100 Welsh Women: A Living Archive of Wales' Changemakers

Ymgeisydd: Women's Equality Network (WEN) Wales

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect arfaethedig 23 mis i ailddychmygu ac adfywio'r Fenter 100+ o Fenywod Cymru.

Penderfyniad: Gwrthod

## Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn Y Mor 50th Celebrations

Ymgeisydd: Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn Y Môr

Disgrifiad o'r prosiect: Mae hwn yn brosiect arfaethedig dros gyfnod o ddeng mis sy'n chwilio am gefnogaeth i ddathlu pen-blwydd Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn Y Môr yn 50 oed.

Penderfyniad: Gwrthod